

Maes Llafur Cytunedig Abertawe ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg 2022



“Children must be taught how to think, not what to think”
(Margaret Mead 1928, 1961)

www.abertawe.gov.uk
www.swansea.gov.uk



@cyngorabertawe
@swanseacouncil



cyngorabertawe1
swanseacitycouncil



Cyngor **Abertawe**
Swansea Council

Contents

		Page
1.	Rhagymadrodd – Cyfarwyddwr Addysg	3
2.	Rhagair gan CYSCGM Abertawe	4
3.	CGM o fewn y Cwricwlwm i Gymru	5
4.	Gofynion cyfreithio	5
	Ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol heb gymeriad crefyddol	6
	Ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol	6
	Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr sydd â chymeriad crefyddol	6
	CGM Ôl-16	6
	Yr hawl i dynnu'n ôl yn y Cwricwlwm i Gymru	7
5.	Canllawiau CGM Llywodraeth Cymru	7
6.	Cyfrifiad 2011	7
7.	Cyd-awduro'r Maes Llafur Cytunedig	8
8.	Nodau CGM	8
	CGM a'r pedwar diben	8
9.	Canllawiau awgrymedig ar ddyrannu amser	9
10.	Amcanion y Maes Llafur Cytunedig	9
11.	Addysgu a dysgu yn CGM	10
12.	Cynhwysiant	10
	Addysg mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir	10
	Addysg heblaw yn yr ysgol	11
13.	Siarter y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn	11
14.	Cymru Wrth-hiliol	12
15.	Cynefin	12
16.	Datblygiad Ysbrydol	12
17.	CGM rhwng 3 ac 16 oed	13
	Yr hyn sy'n bwysig yn y Dyniaethau	13
	Cynllunio cwricwlwm gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol	13
	Syniadau allweddol a argymhellir a thablau cryno gwybodaeth	13
	Argymhellion ar gyfer syniadau a gwybodaeth allweddol	15
	Gwerthoedd a Moeseg	32
18.	CGM rhwng 14 ac 16 oed	34
19.	CGM rhwng 16 a 19 oed	34
20.	Cynnydd ac Asesu	34
	Rhestr Termiau	35
	Enghreifftiau o unedau CGM i gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru	35
	Cydnabyddiaeth	36

1. Rhagair - Cyfarwyddwr Addysg

Mae'n bleser gennyf gyflwyno maes llafur cytunedig newydd Abertawe ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, sy'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru yn ogystal ag arweiniad CGM Llywodraeth Cymru.

Lluniwyd y maes llafur hwn ar y cyd â rhanddeiliaid ar draws Abertawe, gan gynnwys athrawon a disgyblion yn ogystal â chynrychiolwyr o gymunedau crefyddol ac anghrefyddol.

Bydd maes llafur CGM cytunedig Abertawe, ar y cyd ag arweiniad LIC ar gyfer CGM yn cefnogi ysgolion ac athrawon wrth iddynt ddefnyddio eu hymreolaeth a'u cyfrifolaeth i ddatblygu eu cwricwlwm CGM pwrpasol eu hunain sy'n addas ar gyfer eu dysgwyr a'u lleoliad. Ni fwriedir iddo gael ei ddefnyddio fel cwricwlwm neu fel cynllun dysgu ond fe'i dyluniwyd i ddarparu rhagor o arweiniad wrth ddatblygu CGM gwrthrychol, plwraliaethol a beirniadol.

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn elfen orfodol o'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer disgyblion 3-16 oed. Rwy'n gobeithio y bydd y maes llafur hwn yn cefnogi pob ysgol wrth iddi geisio dylunio ei chwricwlwm CGM, o fewn Maes Dysgu Dyniaethau y Cwricwlwm i Gymru. Gan ddefnyddio pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru fel yr ysgogwr ar gyfer adeiladu maes llafur cytunedig Abertawe, rwy'n rhagweld y bydd y maes llafur cytunedig hwn yn helpu i ddatblygu disgyblion sy'n gyfarwydd â chrefydd sydd â gwybodaeth ddofn a dilys am grefydd a bydolygon, sydd â chyfleoedd i gymryd rhan yn y cwestiynau mawr ac sy'n gallu myfyrio ar eu gwerthoedd nhw, a gwerthoedd pobl eraill hefyd, a'u trafod. Dyluniwyd y maes llafur hwn i alluogi ein dysgwyr yn Abertawe i fod yn fwy moesol wybodus ac i allu bod yn aelodau gweithredol sy'n cyfrannu ac yn cymryd rhan yn ein byd amrywiol, aml-grefyddol ac aml-seciwlar.

Helen Morgan-Rees
Cyfarwyddwr Addysg

2. Rhagair gan CYSCGM Abertawe

Annwyl holl ysgolion Abertawe,

Mae cael maes llafur cytunedig yn hanfodol wrth sicrhau bod CGM yn cael y parch a'r statws y mae'n ei haeddu mewn ysgolion gwladol. Bydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer CGM yn dod yn rhan hanfodol o'r cynllunio ym Maes Dysgu'r Dyniaethau ac ni fydd yn 'rhywbeth ychwanegol'. Bydd y maes llafur cytunedig hwn yn cefnogi cydweithwyr wrth iddynt gynllunio CGM fel pwnc ac fel rhan o Faes Dysgu'r Dyniaethau (MD). At hynny, mae'n sicrhau bod parhad pendant rhwng ysgolion Ffydd a Gwladol yn eu darpariaeth o CGM plwraliaethol, gwrthrychol a beirniadol.

Er nad yw'n statudol, mae'r maes llafur cytunedig yn darparu llwyfan diogel i ymarferwyr weithio ohono wrth godi proffil CGM yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru, gan roi ystyriaeth ofalus i sut mae hyn yn bodloni'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig' a'r Pedwar Diben Craidd Addysg.

Rydym yn dymuno'r gorau i chi wrth i chi gynllunio eich cwricwlwm CGM ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chi i'ch cefnogi ar eich taith CGM gyda'ch dysgwyr.

3. CGM o fewn y Cwricwlwm i Gymru

(Canllawiau CGM Llywodraeth Cymru)

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn un o ofynion statudol Cwricwlwm i Gymru ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae CGM yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad (MDPh) y Dyniaethau. Mae'r Maes hwn yn cwmpasu Astudiaethau Busnes, Daearyddiaeth, Hanes, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, ac Astudiaethau Cymdeithasol. Mae'r disgyblaethau hyn yn rhannu llawer o'r un themâu, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy, ac yn cynnwys eu gwybodaeth a'u sgiliau gwahanol eu hunain hefyd.

Gall CGM o fewn y Cwricwlwm i Gymru wneud cyfraniad unigryw tuag at gyflawni'r [pedwar diben](#) i bob dysgwr. Fel y cyfryw, mae'r maes llafur hwn yn helpu ysgolion a lleoliadau i ddatblygu darpariaeth ar gyfer CGM sy'n paratoi dysgwyr yng Nghymru ar gyfer bywyd a gwaith, fel dinasyddion cyfrifol a gwybodus, mewn byd amrywiol sy'n newid yn gyflym.

Lleolir canllawiau CGM o fewn Maes y Dyniaethau ac maent yn ymgorffori amrywiaeth o ddulliau disgyblaethol y gall ddysgwyr eu defnyddio i ymgysylltu'n feirniadol ag amrywiaeth eang o gysyniadau crefyddol ac anghrefyddol. Er enghraifft, gallai ddulliau disgyblaethol sy'n berthnasol i CGM gynnwys astudiaethau crefyddol, athroniaeth, diwinyddiaeth, cymdeithaseg, seicoleg ac anthropoleg. Hefyd ceir cydberthnasau cadarn rhwng CGM a'r disgyblaethau eraill ym Maes y Dyniaethau, a gyda Meysydd eraill yn ogystal.

Mae cysyniadau yn bwysig mewn CGM am eu bod yn syniadau canolog sy'n helpu dysgwyr i ddeall a dehongli profiadau dynol, y byd naturiol a'u lle eu hunain ynddo. Caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio cysyniadau CGM drwy amrywiaeth o is-lensys sy'n cyfuno i ffurfio lens ddisgyblaethol CGM. Mae'r cysyniadau a'r is-lensys hyn wedi'u nodi yn y canllawiau CGM hyn.

O fewn y Cwricwlwm i Gymru, mae CGM yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol, o ran cynnwys ac addysgeg; nid oes a wnelo'r pwnc â gwneud dysgwyr yn 'grefyddol' neu'n 'anghrefyddol'. Daw'r ymadrodd 'gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol' o gyfraith achosion y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn sicrhau ei bod yn rhaid i bob dysgwr gael cynnig cyfleoedd drwy CGM i ymwneud â gwahanol grefyddau ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yn eu hardal leol ac yng Nghymru, yn ogystal ag yn y byd ehangach.

4. Gofynion cyfreithiol

(Canllawiau CGM Llywodraeth Cymru)

Ceir crynodeb o'r ddeddfwriaeth [yma](#).

Datblygwyd Maes Llafur Cytunedig Abertawe yn unol â'r ddeddfwriaeth o'r Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ynghyd â'r Ddeddf Addysg 1996.

Mae Maes Llafur Cytunedig Abertawe ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn adlewyrchu credoau crefyddol yn ogystal â chredoau anghrefyddol sy'n argyhoeddiadau athronyddol yn unol ag ystyr Erthygl 2 Protocol 1 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (E2P1). Mae'r rhain yn cynnwys credoau megis dyneiddiaeth, anffyddiaeth a seciwlariaeth. Dim ond enghreifftiau o'r math o greddau sydd o fewn cwmpas CGM yw'r rhain, yn hytrach na rhestr hollgynhwysfawr. Mae'r newidiadau hyn yn nodi'n glir beth sydd eisoes yn ofynnol yn ôl y gyfraith mewn perthynas ag addysg CGM blwraliaethol.

Ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol heb gymeriad crefyddol
Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddarpariaeth yn y cwricwlwm ar gyfer addysgu a dysgu, sy'n cwmpasu CGM, fod wedi cael ei chynllunio gan ystyried y maes llafur cytunedig. (Y "maes llafur cytunedig" yng nghyd-destun yr Atodlen yw'r Maes Llafur CGM a fabwysiadwyd gan yr awdurdod lleol o dan adran 375A y Ddeddf 1996 sydd i'w ddefnyddio mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod). Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddarpariaeth CGM hon fod ar gael i bob dysgwr.

Ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol
I'r ysgolion hyn, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddarpariaeth yn y cwricwlwm ar gyfer addysgu a dysgu, sy'n cwmpasu CGM, fod wedi cael ei chynllunio gan ystyried y maes llafur cytunedig.

Fodd bynnag, yn achos yr ysgolion hyn, ceir gofyniad ychwanegol a fydd ond yn berthnasol os nad yw'r ddarpariaeth a gynlluniwyd gan ystyried y maes llafur cytunedig yn cyd-fynd â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau ei chrefydd neu ei henwad crefyddol.

Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr sydd â chymeriad crefyddol
I'r ysgolion hyn, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwricwlwm wneud darpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu, mewn perthynas â CGM, sy'n cyd-fynd â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau ei chrefydd neu ei henwad crefyddol.

Eto, ceir gofyniad ychwanegol. Ar gyfer ysgolion o'r math hyn, mae'r gofyniad ychwanegol ond yn berthnasol os nad yw'r ddarpariaeth a gynlluniwyd (hynny yw, sy'n cyd-fynd â gweithred ymddiriedolaeth neu ddaliadau crefyddol neu enwad crefyddol yr ysgol) yn cyd-fynd â'r maes llafur cytunedig. Yn yr achos hwn, rhaid i gwricwlwm yr ysgol gynnwys hefyd darpariaeth ar gyfer CGM sydd wedi'i chynllunio gan ystyried y maes llafur cytunedig.

CGM Ôl-16

O 2027 ymlaen, ni fydd CGM ôl-16 yn fandadol mwyach mewn ysgolion, yn rhinwedd darpariaethau'r Ddeddf. Yn unol ag adran 61 y Ddeddf, bydd pob dysgwr dros 16 oed bellach yn gallu optio i mewn i CGM, lle'r oedd gofyniad o'r blaen i bob dysgwr yn y chweched dosbarth astudio addysg grefyddol. Os bydd dysgwr yn dewis optio i mewn i CGM, yna rhaid i'r ysgol neu'r coleg ddarparu CGM sy'n wrthrychol, beirniadol a phluraliaethol. Mae'r dull hwn o weithredu yn gyson â'r egwyddor y dylai dysgwyr sy'n ddigon aeddfed allu gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'u dysgu eu hunain.

Pan fo dysgwr yn gofyn am CGM yn unol ag adran 61 y Ddeddf, rhaid cynllunio'r CGM fel ei fod yn:

- adlewyrchu'r ffaith bod y traddodiadau crefyddol yng Nghymru yn rhai Cristnogol ar y cyfan tra'n ystyried dysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng Nghymru
- adlewyrchu hefyd y ffaith bod ystod o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol eraill i'w cael yng Nghymru.

Nid yw Adran 61 y Ddeddf yn atal ysgol rhag gosod gofyniad i bob dysgwr yn ei chweched dosbarth gymryd dosbarthiadau CGM gorfodol; ac nid yw ychwaith yn atal ysgol sy'n mabwysiadu'r drefn hon rhag darparu CGM gorfodol i'r chweched dosbarth sy'n cyd-fynd â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau ei chrefydd neu ei henwad crefyddol ("CGM enwadol"). Mae cynnwys CGM enwadol o'r fath yn parhau i fod yn fater i'r ysgol gyda'r cwricwlwm wedi'i gynllunio'n unol â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau ei chrefydd.

Mae'r maes llafur hwn yn cyfeirio at CGM ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 16 oed. Os bydd dysgwyr ôl-16 yn gofyn am ddarpariaeth CGM ac mae angen cymorth, cysylltwch â [CYSCGM](#) Abertawe a gallant gynghori, os oes angen.

Yr hawl i dynnu'n ôl yn y Cwricwlwm i Gymru

O fis Medi 2022, ni fydd hawl gan rieni i dynnu'n ôl mewn perthynas â phob dysgwr hyd at a chan gynnwys blwyddyn 6, gan fydd y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei weithredu gan bob ysgol a lleoliad cynradd o'r dyddiad hwn. Bydd hyn hefyd yn berthnasol i ddysgwyr ym mlwyddyn 7 y mae eu hysgolion wedi mabwysiadu'r Cwricwlwm i Gymru. Yna caiff ei weithredu wrth i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei gyflwyno i grwpiau blwyddyn dilynol.

Cysylltwch â [CYSCGM](#) Abertawe am eglurhad neu gymorth os oes angen.

5. Canllawiau CGM Llywodraeth Cymru

(Canllawiau CGM Llywodraeth Cymru)

Mae'r canllawiau i'w gweld [yma](#). Mae'r maes llafur hwn i'w ddarllen ar y cyd â'r canllawiau CGM ac i'w ddefnyddio ochr yn ochr â'r rheini.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar CGM sydd wedi'u cynnwys o fewn y Maes Dyniaethau yn statudol ac wedi'u cyhoeddi o dan adran 71 Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (y Ddeddf) ac fe'u cynlluniwyd i gynorthwyo'r rhai sy'n gyfrifol o dan y Ddeddf am gynllunio'r maes llafur CGM fel rhan o gwricwlwm yr ysgol.

6. Cyfrifiad 2011

DS: Caiff hyn ei ddiweddarau pan fydd data 2021 data ar gael

Mae gan Abertawe boblogaeth amrywiol. Yng Nghyfrifiad 2011, nododd 55% o'r ymatebwyr eu bod yn Gristion, 2.27% Moslem, 0.4% Bwdaidd, 0.3% Hindŵ, 0.1% Sîc a 0.07% Iddewig. O'r boblogaeth sy'n weddill, nododd 34% nad oedd ganddynt unrhyw grefydd, 0.43% crefydd arall ac nid oedd 7.46% wedi ymateb. Mae dros 140 o ieithoedd gwahanol yn cael eu siarad yn ysgolion Abertawe. Felly, mae ysgolion Abertawe'n amrywiol iawn, ac mae'n bwysig bod ysgolion yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth a'r gwahaniaethau hyn yn y broses o ddylunio cwricwlwm CGM.

Crefydd	Lloegr a Chymru %	Cymru %	Sir Benfro %
Bwdhaidd	0.4	0.3	0.4
Cristnogol	59.3	57.6	55.0
Hindŵaidd	1.4	0.3	0.3
Iddewig	0.5	0.1	0.07
Mwslimaidd	4.8	1.5	2.27
Dim Crefydd	25.1	32.1	34.0
Sikhaidd	0.8	0.1	0.1
Unrhyw grefydd arall	0.4	0.4	0.43
Ni atebwyd	7.2	7.6	7.46

7. Cyd-awduro'r Maes Llafur Cytunedig

Yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r [Plentyn](#), defnyddiwyd llais disgyblion i gefnogi datblygiad, a helpu llunio, Maes Llafur Cytunedig Abertawe ar gyfer CGM. Mae CYSAG Abertawe hefyd wedi archwilio anghenion ysgolion ac ymarferwyr CGM ac wedi cynnig cyfleoedd i gynrychiolwyr ffydd CYSAG rannu eu barn am yr hyn 'nad yw'n agored i drafodaeth' a'u gwybodaeth graidd am eu ffydd. Felly mae hwn yn Faes Llafur ar gyfer CGM sydd yn wirioneddol wedi'i gyd-awduro a'i gytuno'n lleol.

8. Nodau CGM

CGM a'r pedwar diben

Wrth wraidd y Cwricwlwm i Gymru y mae'r [pedwar diben](#), sy'n allweddol i lywio'r broses o gynllunio'r cwricwlwm ac, fel y cyfryw, dylid canolbwyntio arnynt ym mhob agwedd ar ddatblygu'r cwricwlwm. Mae'r pedwar diben yn nodi'r dyheadau ar gyfer pob dysgwr. Erbyn iddynt gyrraedd 16 oed, dylent fod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Ym Maes y Dyniaethau, mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn cyfrannu at gyflawni pedwar diben y cwricwlwm. Mae'r rhain fel a ganlyn:

1. Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.
2. Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.
3. Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.
4. Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.
5. Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.

Bydd CGM rhagorol yn cefnogi llythrennedd crefyddol disgyblion. Mae diffinio llythrennedd crefyddol yn gymhleth ac yn ddadleuol. At ddibenion y maes llafur, rydym yn canolbwyntio ar lythrennedd crefyddol fel sy'n caniatáu i ddisgyblion fynediad i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o argyhoeddiadau/safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol [athronyddol](#) Abertawe, Cymru a'r byd. Trwy gynllunio effeithiol, dylunio ac addysgu cwricwlwm o ansawdd uchel, bydd disgyblion nid yn unig yn cael y cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth am grefydd ac argyhoeddiadau/safbwyntiau athronyddol anghrefyddol, ond hefyd yn dysgu sut i gynnal sgysiau a barn cytbwys a gwybodus. Bydd disgyblion sy'n grefyddol lythrennog yn cael eu galluogi i gymryd eu lle yn hyderus o fewn ein cymdeithas aml-grefyddol ac aml-seciwlar amrywiol, byddant yn gallu meddwl yn annibynnol, bod yn adfyfyriol a gallu gwerthuso mewn modd teg a beirniadol. Byddant yn ddinasyddion gwybodus a moesegol sydd â'r gallu i gymryd rhan weithredol a chyfrannu fel aelodau o'u cymunedau boed yn lleol, yn genedlaethol neu'n fyd-eang.

9. Canllawiau awgrymedig ar ddyrannu amser

Mae gan ysgolion gyfrifolaeth dros gynllunio eu cwricwlwm. Mae'n benderfyniad i bob ysgol ei wneud ynghylch sut y caiff CGM ei gyflwyno. Mae'r opsiynau'n cynnwys:

- (a) CGM wedi'i ymgorffori'n llawn ym Maes Dysgu'r Dyniaethau;
- (b) CGM a gyflwynir drwy themâu trawsgwricwlaidd neu ryngddisgyblaethol;
- (c) Archwilio synergedd CGM â phynciau eraill o fewn y cwricwlwm tra'n cynnal presenoldeb ar wahân fel pwnc penodol hefyd.

Pa ddull bynnag a ddefnyddir gan ysgolion unigol, dylai'r cwricwlwm ar gyfer CGM gael ei brofi drwy ddull o'i weithredu sy'n wrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol a dylai sicrhau bod CGM yn cael cydraddoldeb â'r pynciau eraill ym maes y Dyniaethau.

Gwrthrychol	Beirniadol	Plwraliaethol
Dylai CGM archwilio realiti ffeithiau sy'n ymwneud â chrefydd a chredoau yn Sir Benfro, Cymru a'r byd heddiw. Ni ddylid cael ei ddylanwadu gan deimladau na chredoau personol neu sefydliadol.	Dylai CGM annog dysgwyr i feddwl yn ddwys a llunio barn fedrus yn y ffordd y maent yn archwilio gwirionedd.	Dylai CGM helpu dysgwyr i archwilio a gwerthfawrogi ystod amrywiol o syniadau, credoau, arferion a thraddodiadau.

10. Amcanion y Maes Llafur Cytunedig

Nid yw'r Maes Llafur Cytunedig wedi'i gynllunio i fod yn gynllun gwaith, ond yn hytrach i fod yn ganllaw defnyddiol a phwynt cyfeirio cyfreithiol ar gyfer ysgolion i'w cefnogi i gynllunio cwricwlwm priodol a pherthnasol i'w dysgwyr, sy'n cynnwys CGM o fewn Maes y Dyniaethau. Bwriedir i'r maes llafur hwn gael ei ddefnyddio ar y cyd â'r canllawiau CGM. Mae dull gweithredu Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn seiliedig ar egwyddor cyfrifolaeth ac, fel y cyfryw, mae'r Maes Llafur Cytunedig yn cydnabod ac yn adlewyrchu ymreolaeth pob ysgol a lleoliad wrth iddynt wireddu eu cwricwlwm eu hunain.

Mae'r Maes Llafur Cytunedig wedi'i ysgrifennu i rymuso a chefnogi athrawon ac ysgolion i wneud darpariaeth ar gyfer pob disgybl nid yn unig i fodloni pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, ond hefyd i baratoi dysgwyr ar gyfer bywyd yn ein byd aml-grefyddol ac aml-seciwlar. Mae'r Maes Llafur Cytunedig yn cydnabod er y dylai'r prif grefyddau a'u traddodiadau yn Abertawe a Chymru gael eu haddysgu ym mhob ysgol, mae credoau eraill (gan gynnwys argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol megis dyneiddiaeth ac anffyddiaeth) bellach yn rhan gydnabyddedig o fywyd o fewn ardaloedd lleol yng Nghymru a thu hwnt. Adlewyrchir hyn yn y Ddeddf sy'n datgan bod rhaid i'r Maes Llafur Cytunedig:

- Adlewyrchu'r ffaith mai traddodiadau Cristnogol yw'r traddodiadau crefyddol yng Nghymru yn bennaf, gan ystyried ar yr un pryd ddysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng Nghymru
- Hefyd adlewyrchu'r ffaith bod gan bobl yng Nghymru amrywiaeth o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol

Mae'r rhai sy'n gyfrifol am gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer CGM yn gyfrifol am sicrhau bod y CGM a ddarperir yn eu lleoliad yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hon. Gall CYSCGM Abertawe gynghori os oes angen.

11. Addysgu a dysgu yn CGM

Wrth ddatblygu'r cwricwlwm CGM a chyfleoedd addysgu a dysgu i ddysgwyr o fewn CGM, dylid ystyried:

1. Atal dysgwyr rhag datblygu camsyniadau am grefydd ac argyhoeddiadau/safbwyntiau athronyddol anghrefyddol. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwricwlwm fod yn seiliedig ar astudiaeth academiaidd ac ysgolheictod.
2. Datblygu cwricwlwm sy'n caniatáu i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth yn ddigon manwl ac sy'n osgoi ymdriniaeth arwynebol o'r cynnwys a ddewisir.
3. Creu cwricwlwm sydd wedi'i strwythuro a'i drefnu mewn modd a fydd yn cefnogi dysgwyr yn eu datblygiad drwy'r camau dilyniant.

12. Cynhwysiant

(Canllawiau CGM Llywodraeth Cymru)

Dylai pob dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) gael cymorth i oresgyn rhwystrau rhag dysgu a gwireddu ei botensial llawn mewn CGM. Dylai ysgolion a lleoliadau sy'n cynnig addysg i ddysgwyr ag ADY, gan gynnwys y rhai ag anawsterau dwys a lluosog, ystyried y ffordd orau o ddiwallu anghenion pob dysgwr wrth gynllunio a chynnig cyfleoedd dysgu effeithiol mewn CGM.

Gallai'r ystiriaethau hyn gynnwys, er enghraifft:

- dulliau gweithredol ac amlsynnwyr o gyflwyno pethau newydd i'w dysgu mewn CGM, gan ystyried gwahanol ddulliau dysgu ac anghenion emosiynol pob dysgwr.
- cyfleoedd cynhwysol i ddysgwyr brofi rhyfeddod mewn amrywiaeth o amgylcheddau.
- defnyddio amrywiaeth o ysgogiadau, megis arteffactau crefyddol ac anghrefyddol a chyd-destunau perthnasol.
- pob dysgwr yn cymryd rhan yn llawn, gan gynnwys y rhai sy'n cyfathrebu drwy ddulliau heblaw siarad.
- gweithgareddau sy'n cynnwys pob dysgwr o fewn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi, er enghraifft, wrth ymweld â mannau addoli lleol a lleoedd arbennig ac arwyddocaol eraill.

Wrth weithio gyda dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, dylai ymarferwyr a gofalgwyr fod yn ymwybodol o ddull gweithredu'r ysgol neu'r lleoliad mewn perthynas â CGM o fewn Maes y Dyniaethau.

I gael rhagor o wybodaeth am ADY, gweler canllawiau [Ar Drywydd Dysgu](#) a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021.

Addysg mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir

Dylai darpariaeth addysg CGM mewn lleoliad meithrin a ariennir nas cynhelir gael ei hystyried fel rhan o ddull cyfannol cyffredinol mewn perthynas â dysgu a datblygu. Mae adran 'Cynllunio eich cwricwlwm ar gyfer CGM' y canllawiau hyn yn cynnig rhagor o wybodaeth am CGM i ddysgwyr rhwng 3 ac 16 oed, er mwyn helpu ymarferwyr yn y lleoliadau hyn gyda'r dull cyfannol hwn.

Mae chwilyfrydedd dysgwyr ifanc yn ddi-ben-draw; maen nhw'n mwynhau archwilio ac ymchwilio ar eu pen eu hunain ac ar y cyd ag eraill, ac maen nhw'n naturiol yn gofyn cwestiynau am fywyd a'r byd o'u cwmpas. Drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol ac integredig sy'n ennyn eu diddordeb o fewn y cyfnod dysgu hwn, gall dysgwyr ddechrau dysgu mwy amdany'n nhw eu hunain, am bobl eraill ac am y byd ehangach.

Dylai addysgeg effeithiol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ac sy'n ymatebol, yn ddeinamig ac wedi'i gwreiddio mewn cydberthnasau cryf, fod wrth wraidd y broses o ddatblygu darpariaeth CGM mewn lleoliad. Drwy chwarae, gall dysgwyr ddatblygu eu syniadau, eu safbwyntiau a'u teimladau gyda dychymyg, creadigrwydd a sensitifrwydd. Gall hyn helpu i lywio'r ffordd y maen nhw'n gweld y byd. Mae treulio amser yn yr awyr agored yn cefnogi datblygiad cymdeithasol, emosiynol, ysbrydol a chorfforol dysgwyr, yn ogystal â'u lles. Mae bod yn yr awyr agored hefyd yn eu helpu i ddod yn ymwybodol o'r angen i ddangos gofal a pharch tuag at bethau byw.

Yn ystod y cyfnod dysgu hwn, mae dysgwyr yn dechrau deall y cysyniad o 'wahaniaeth'. Dylai ymarferwyr eu hannog i rannu eu gwybodaeth am eu credoau, eu treftadaeth a'u traddodiadau eu hunain, yn ogystal â rhai pobl eraill, ynghyd â'u profiadau ohonyn nhw (er enghraifft, drwy ganeuon, straeon a chwarae rôl). Gall hyn helpu dysgwyr ifanc i ddeall mwy amdany'n nhw eu hunain, ac am brofiadau a safbwyntiau a all fod yn wahanol i'w rhai eu hunain.

Gall amgylchedd meithrin, cefnogol helpu dysgwyr i ddechrau meithrin cydberthnasau llawn parch ac ymdeimlad o gyfrifoldeb. Mewn amgylchedd o'r fath gall dysgwyr ddysgu am yr hyn sy'n wahanol ac yn debyg rhwng ei gilydd. Gallan nhw ddechrau archwilio iaith hawliau a dechrau deall eu hawl i gredu pethau gwahanol a dilyn credoau gwahanol. Drwy hyn, gall dysgwyr ddechrau sylweddoli a deall sut y gall eu gweithredoedd effeithio ar eraill, a dysgu sut i fyfrio ar eu safbwyntiau eu hunain a'u hailystyried, fel y bo'n briodol, a hynny o oedran cynnar.

Ar gyfer pob dysgwr ym mhob lleoliad, rhaid i gynllun y cwricwlwm CGM sicrhau bod CGM yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol.

Addysg heblaw yn yr ysgol

Mae gan bob dysgwr hawl i gael addysg. Wrth ystyried y ffyrdd gorau o ddiwallu anghenion eu dysgwyr, mae'n ofynnol i ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion, ystyried elfennau mandadol y cwricwlwm, sy'n cynnwys CGM, a sicrhau darpariaeth ar eu cyfer i'r graddau a fyddai'n rhesymol bosibl ac yn briodol i'r dysgwr unigol.

Dylai profiadau dysgwyr eu galluogi i archwilio cysyniadau CGM drwy'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym Maes y Dyniaethau, gan ddefnyddio is-lensys amrywiol o fewn CGM sydd wedi'u cynnwys yn y canllawiau hyn. Nid yw'n ofynnol i leoliadau o'r fath ddilyn y maes llafur cytunedig. Fodd bynnag, rhaid i'r addysg CGM a ddarperir yn y lleoliadau hyn fodloni'r gofyniad plwraliaethol o hyd.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y gofynion deddfwriaethol i unedau cyfeirio disgyblion a darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol yn yr [adran ar ddeddfwriaeth](#) yn Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.

13. Siarter y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn cynnwys 'dyletswydd i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn a phobl ag anableddau'. Mae'n hanfodol, pan fydd ysgolion yn datblygu eu cwricwlwm CGM, eu bod nid yn unig yn cynnwys cyfleoedd i ddysgwyr ddysgu am hawliau dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD), ond hefyd bod dysgwyr yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn cynllunio'r cwricwlwm. Mae'r themâu trawsgwricwlaidd ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm, sydd i'w gweld [yma](#) yn categoreiddio tair elfen o addysg hawliau dynol, y dylid ymgorffori pob un ohonynt yn y cwricwlwm CGM:

1. Dysgu am hawliau dynol, sy'n ymgorffori dealltwriaeth o hawliau dynol a ffynonellau'r hawliau hynny, gan gynnwys CCUHP a UNCRPD.
2. Dysgu drwy hawliau dynol – sy'n ymwneud â datblygu gwerthoedd, agweddau ac ymddygiadau sy'n adlewyrchu gwerthoedd hawliau dynol.
3. Dysgu ar gyfer hawliau dynol – sy'n ymwneud â chymhell gweithredu cymdeithasol a grymuso dinasyddiaeth weithredol i hyrwyddo parch at hawliau pawb.

Mae'r maes llafur hwn wedi'i gynllunio gyda'r ystyriaethau hyn o hawliau dynol mewn golwg.

14. Cymru Wrth-hiliol

Dylai cynllun y cwricwlwm CGM sicrhau ei fod yn cadw at [Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol](#) er mwyn caniatáu i ddysgwyr yn Sir Benfro ymgysylltu â gwahanol brofiadau hanesyddol, hiliol, diwylliannol ac ethnig. Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ddysgu am straeon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn eu gwersi CGM a dylid eu cefnogi gyda chwricwlwm sy'n dangos dealltwriaeth o wrth-hiliaeth ac sy'n herio stereoteipiau a normau niweidiol.

15. Cynefin

Mae 'Cynefin' wedi'i nodi o fewn fframwaith Cwricwlwm Llywodraeth Cymru fel naratif a ddylai gwau drwy'r holl brofiadau dysgu a ddarperir i ddysgwyr. Nid dim ond man yn yr ystyr daearyddol mo Cynefin, ond lleoliad o bwysigrwydd diwylliannol, cymdeithasol a hanesyddol sydd wedi ffurfio ac sy'n parhau i ffurfio'r gymuned sy'n trigo yno. Ceir llawer o gyfleoedd cyfoethog i wau llinyn cynefin drwy gwricwlwm CGM/Y Dyniaethau. Byddai'r rhain yn cynnwys ogof orllewinol Twll yr Afr (un o ogofâu Pen-y-fai), Maen Ceti (Carreg Arthur) a Phen Pyrod yn Abertawe. Mae nifer o adnoddau ar gael i'ch cefnogi gyda hyn, gan gynnwys Ffordd Bererindod Gŵyr – Gower Ministry Area (gowerma.org) a Gwlad y Chwedlau.

Bydd darparu cyfleoedd i ddysgwyr archwilio eu hardaloedd lleol yn cynnig dealltwriaeth gyfoethog a gwerthfawr o'u 'cynefin' ac yn dangos sut y mae'r mythau, chwedlau a'r safleoedd sanctaidd a diwylliannol wedi helpu i lunio eu cymuned a'i rhyngweithio â chymunedau ehangach, y genedl a'r byd. Un dull a argymhellir i ddatblygu cysyniad 'cynefin' o fewn Abertawe yw'r dull 'traed, cam, naid' a fydd yn caniatáu i ddysgwyr ddeall eu diwylliant uniongyrchol a'u cyd-destun lleol a sut y

mae'n berthnasol i'r cyd-destun ehangach. Cysylltwch â [CYSCGM](#) Abertawe am gyngor os oes angen.

16. Datblygiad Ysbrydol

Bydd datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol (YMCD) yn cael ei ddatblygu drwy'r cwricwlwm cyfan a gynlluniwyd ac a fabwysiadwyd gan bob ysgol unigol. Ynghyd â phob maes arall y cwricwlwm, bydd disgwyl i CGM gyfrannu at ddatblygiad YMCD, nid yw'n ddyletswydd nac yn gyfrifoldeb penodol CGM yn unig.

Mae'r canllawiau CGM yn egluro sut y gall CGM gyfrannu at hyn [yma](#).

17. CGM rhwng 3 ac 16 oed

Yr hyn sy'n bwysig yn y Dyniaethau

Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig o fewn MDPH y Dyniaethau yn fandadol a rhaid eu hymgorffori nid yn unig o fewn cynllun y cwricwlwm ar gyfer CGM a'r Dyniaethau ond hefyd o fewn y cyfleoedd a'r profiadau addysg a dysgu a ddatblygir ar gyfer dysgwyr. Mae'r cod i'w weld [yma](#).

1. Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.
2. Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.
3. Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.
4. Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.
5. Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.

Cynllunio cwricwlwm gwrthrychol, beirniadol a phlwrailaethol

Rhaid i gynllun y cwricwlwm CGM fod yn unol â'r ddeddfwriaeth, a dylai ystyried [canllawiau](#) CGM Llywodraeth Cymru yn ogystal â'r Maes Llafur Cytunedig Abertawe hwn.

Er mwyn sicrhau bod ein dysgwyr yn datblygu llythrennedd crefyddol ac yn tyfu i fod yn ddinasyddion moesegol, gwybodus o Abertawe, Cymru a'r byd, dylai bod ganddynt fynediad at wybodaeth a sgiliau craidd fel y nodir yn y tablau cryno. Datblygwyd y rhain i sicrhau y gall ysgolion gynllunio eu cwricwla CGM i ganiatáu dysgu sbiral a chyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu mewn modd systematig eu sgema eu hunain. Bydd gan ysgolion gyfrifolaeth o ran cynnwys y wybodaeth graidd yng nghynllun eu cwricwlwm ac yn eu cynlluniau.

I gefnogi'r broses o gynllunio'r cwricwlwm, dylai ysgolion a lleoliadau ystyried y pwyntiau canlynol wrth gynllunio eu cwricwlwm ar gyfer CGM.

- Dylai CGM rhagorol fod yn cynnwys argyhoeddiadau/safbwyntiau crefyddol ynghyd â rhai athronyddol anghrefyddol a rhaid iddynt gael eu cynrychioli mewn modd teg a chywir.
- Mae cyd-destun lleol yn bwysig yn CGM. Mae hyn yn cynnwys cyd-destun yr ysgol a'r ardal leol yn ogystal â gwybodaeth a phrofiad disgyblion ac athrawon. Mae gan ysgolion gyfrifolaeth h.y. y rhyddid i wneud dewisiadau cwricwlwm yn unol â'u lleoliad penodol.

- Bydd CGM rhagorol wedi'i ddilyniannu ar draws pob cyfnod ysgol er mwyn caniatáu i ddysgwyr wneud cynnydd cyson drwy gydol eu hamser yn yr ysgol.

Syniadau allweddol a argymhellir a thablau cryno gwybodaeth

Dylid defnyddio'r syniadau allweddol a argymhellir a'r tablau cryno gwybodaeth ochr yn ochr â phedwar diben y cwricwlwm a datganiadau o'r hyn sy'n bwysig y Dyniaethau i greu'r cwricwlwm CGM. Bydd y wybodaeth graidd, alluogi hon nid yn unig yn datblygu llythrennedd crefyddol yn ein dysgwyr, ond bydd hefyd yn eu cefnogi i ddod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus o Abertawe, Cymru a'r byd.

Mae'r argymhellion ar syniadau a gwybodaeth allweddol wedi'u cadw i'r nifer lleiaf posibl er mwyn caniatáu i ysgolion gynllunio eu cwricwlwm CGM eu hunain, sy'n gweddu i'w cyd-destun ac sy'n bodloni anghenion eu dysgwyr, ac yn sicrhau dealltwriaeth drylwyr o gysyniadau, dysgeidiaethau, credoau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol. Nid yw'r syniadau allweddol a argymhellir a'r tablau cryno gwybodaeth wedi'u cynllunio i'w defnyddio fel cynllun gwaith cyflawn neu rannol, dim ond fel pwynt cyfeirio i gyfeirio ato wrth gynllunio'r cwricwlwm CGM. Bydd hyn yn sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad at wybodaeth grefyddol gyfoethog a phwerus. Gall ysgolion arfer cyfrifolaeth a chreu eu syniadau a'u gwybodaeth allweddol eu hunain yn seiliedig ar eu cwricwlwm eu hunain a gynlluniwyd ar gyfer CGM. Pan fydd hyn yn digwydd, rhaid i ysgolion sicrhau bod y wybodaeth graidd yn cael ei chyflwyno gydag o leiaf yr un trylwyredd academiaidd â'r rhai a argymhellir yma.

- Mae llythrennedd crefyddol yn hanfodol er mwyn i ddysgwyr allu bodloni pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, a chyda hyn mewn golwg, mae'r disgwyliadau canlynol felly yn rhan annatod o'r maes llafur hwn. Erbyn iddynt gyrraedd 14 oed, byddai dysgwyr wedi datblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o amrywiaeth eang o grefyddau a chredoau sy'n cwmpasu'r ffyddau Abrahamig a'r traddodiadau Dharmig yn ogystal â mathau eraill o greddoau crefyddol, yn enwedig y rhai sy'n berthnasol i gymunedau Abertawe.
- Amrywiaeth o safbwyntiau/argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yn ogystal ag argyhoeddiadau athronyddol.

Dylai'r cwricwlwm a'r dewisiadau a wneir adlewyrchu traddodiadau'r ysgol, y gymuned leol a Chymru, tra hefyd yn ystyried y byd yn ehangach yn ogystal. Gweler pwynt 1o am grynodedd deddfwriaethol.

Gan fod gan y Cwricwlwm i Gymru ddisgwyliadau sy'n gysylltiedig â chyfnodau, yn hytrach nag oedran, bydd cwricwlwm pob ysgol yn gwbl gynhwysol (yn seiliedig ar ganllawiau CGM Llywodraeth Cymru yn ogystal â'r Maes Llafur Cytunedig hwn). Rhaid i'r cwricwlwm gael ei gynllunio i sicrhau bod disgyblion yn derbyn profiadau dysgu CGM cyfoethog a chadarn sy'n caniatáu pob disgybl i wneud cynnydd drwy gwricwlwm sbiral 3-16.

Disgwylir i athrawon ar draws y sectorau cynradd ac uwchradd gydweithio a chyd-awduro'r hawl hon i ddilyniant mewn dysgu ar gyfer pob disgybl.

Nodir syniadau a gwybodaeth allweddol ar gyfer Cristnogaeth, pum prif grefydd Bwdhaeth, Hindŵaeth, Islam, Iddewiaeth a Sikhiaeth, un argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol (Dyneiddiaeth) ac un argyhoeddiad athronyddol (Feganiaeth Foesebol) yn ogystal â Gwerthoedd a Moeseg. Nid yw hyn yn atal unrhyw grefyddau neu argyhoeddiadau athronyddol eraill rhag cael eu hastudio.

Mae Maes Llafur Lleol Cytunedig Abertawe yn gofyn am y canlynol, yn unol â deddfwriaeth:

- Dylid astudio Cristnogaeth ar draws yr holl gamau cynnydd.
- Dylid astudio'r prif grefyddau eraill a gynrychiolir yn Abertawe ac yn genedlaethol (nodir yma fel Bwdhaeth, Hindŵaeth, Islam, Iddewiaeth a Sikhiaeth) ar draws y camau cynnydd.
- Dylid astudio argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol, megis dyneiddiaeth, anffyddiaeth ac amheuaeth ar draws y camau cynnydd.
- Dylid astudio argyhoeddiadau athronyddol, megis feganiaeth moesegol a heddychiaeth ar draws y camau cynnydd.
- Gellir hefyd astudio crefyddau a bydolygon eraill a gynrychiolir yn Abertawe ac yn genedlaethol, megis ffydd Bahaiaidd, Jainiaeth a Zoroastriaeth.

Cysylltwch â CYSCGM Abertawe am unrhyw gefnogaeth y mae ei hangen arnoch ar gyfer gwybodaeth am bwnc, adnoddau a/neu addysgeg.

Ochr yn ochr â dogfennau Cwricwlwm i Gymru, bydd y syniadau allweddol a'r tablau cryno gwybodaeth yn cynnig sylfaen i ysgolion ac ymarferwyr lunio a datblygu eu cwricwlwm CGM gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol, a'u cynlluniau dysgu.

ARGYMHELLION AR GYFER SYNIADAU A GWYBODAETH ALLWEDDOL

Bwriedir i'r argymhellion hyn fod yn gymorth i gynllunio cwricwlwm CGM lle mae dysgwyr yn caffael gwybodaeth a dealltwriaeth gynyddol soffistigedig am gredoau, arferion a gwerthoedd crefyddol ac anghrefyddol. Ni fwriedir iddynt fod yn rhagnodol nac yn gynhwysfawr, ac ni ddylid eu defnyddio fel cynllun dysgu. Gall y rhai sydd â chyfrifoldeb am gynllunio'r cwricwlwm CGM ddefnyddio'r argymhellion hyn mewn modd hyblyg neu gynllunio model dilyniant sydd o leiaf yn gyfwerth yn nhermau lefel yr her a thrylwyrdd academiaidd.

Mae'r argymhellion yn caniatáu archwilio'r 7 is-lens CGM. Efallai bydd y rhai sy'n cynllunio'r ddarpariaeth CGM yn dymuno bod yn ymwybodol o'r is-lensys fel y'u nodir yng Nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar [CGM](#).

Crefyddau Abrahamig	Syniadau a gwybodaeth allweddol a argymhellir		
	Cynnydd cam 1	Cynnydd cam 2	Cynnydd cam 3
